Huw Irranaca-Davies

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

26 Medi 2016

Annwyl Huw

**Bil Cymru: Cymalau cadw o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig**

Ar 14 Medi 2016, rhoddwyd ystyriaeth i'r cymalau cadw ym Mil Cymru sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig.

I gefnogi'r drafodaeth hon, darparodd Gwasanaeth Cyfreithiol Comisiwn y Cynulliad friff ysgrifenedig yn crynhoi'r materion sy'n gysylltiedig â'r cymalau cadw hyn. Amgaeir y briff hwn, a gofynnwn ichi ei ystyried wrth lunio eich casgliadau mewn perthynas â Bil Cymru ('y Bil').

Yn ychwanegol at y materion a godwyd yn y briff hwn, mae gennym dri phryder arall yr hoffem dynnu eich sylw atynt.

**Addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad wedi i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd**

Mae polisi a deddfwriaeth yr UE yn dylanwadu'n gryf ar lawer o'r meysydd polisi y mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am graffu arnynt. Yn arbennig meysydd amaethyddiaeth, pysgodfeydd a'r amgylchedd.

O dan y setliad presennol, mae rhyddid i'r Cynulliad ddeddfu'n eang yn y meysydd hyn. Mae hyn yn parhau i fod yn wir o dan Fil Cymru (yn amodol ar unrhyw bryderon a godwyd yn y papur briffio cyfreithiol amgaeedig).

Mae'r Pwyllgor am gadw cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn y meysydd hyn ar ôl i'r Deyrnas Unedig adael yr Undeb Ewropeaidd. Byddem yn croesawu cadarnhad gan Lywodraeth y DU ynghylch a yw'n derbyn y safbwynt hwn.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddNHAMG@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddNHAMG
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCCERA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCCERA
0300 200 6565

**Caniatâd i gynlluniau ynni**

Ysgrifennodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd, y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, at Ysgrifennydd Gwladol Cymru i fynegi pryderon ynghylch ffiniau cul y pwerau sy'n cael eu datganoli o ran rhoi caniatâd i gynlluniau ynni.

Rydym yn rhannu rhai o'r pryderon hyn.

Mae'r Bil yn cynnig y bydd y Cynulliad yn ennill cymhwysedd dros:

- bob prosiect cynhyrchu trydan gwynt ar y tir yng Nghymru; a
- phob prosiect cynhyrchu trydan arall yng Nghymru ac yn nyfroedd tiriogaethol Cymru, hyd at 350MW.

Galwodd y pwyllgor a'n rhagflaenodd am ddatganoli'n llawn y drefn o roi caniatâd i gynlluniau ynni pan gyflawnwyd gwaith dilynol ar ei adroddiad ar *Bolisi Ynni a Chynllunio yng Nghymru* yn 2012.

Galwodd y Pwyllgor hwnnw hefyd am ddatganoli'r cymhellion ariannol sy'n gysylltiedig ag ynni adnewyddadwy a'r system ganiatâd ar gyfer gwelliannau i seilwaith y grid.

Nodwn ddau achos arall sy'n peri pryder o ran yr agwedd hon ar y cynigion.

Yn gyntaf, rydym yn pryderu bod y terfyn uchaf o 350MW yn fympwyol. Rhoddodd y Comisiwn Silk gyfiawnhad dros y cyfyngiad hwn, ond gellir cwestiynu'r cyfiawnhad hwnnw, yn enwedig gan fod y sefyllfa yng Nghymru wedi symud ymlaen yn sylweddol ers i Gomisiwn Silk edrych ar y mater.

Rydym wedi gweld prosiectau fel morlyn llanw Bae Abertawe yn symud yn eu blaenau, ac mae cynigion ar gyfer morlynnoedd llanw mwy o faint ar y gweill.

O dan y cynigion yn y Bil, gallai Gweinidogion Cymru fod wedi rhoi caniatâd i'r prosiect yn Abertawe. Ond ni allent fod wedi rhoi caniatâd ar gyfer prosiectau mwy o faint sy'n cael eu cynllunio mewn mannau eraill yn Aber Afon Hafren ger Caerdydd a Chasnewydd ac oddi ar arfordir Gogledd Cymru. Ni fu dim eglurhad ar y rhesymeg sy'n sail i'r penderfyniad hwn.

Yr ail beth sy'n ein pryderu yw bod mwy o wahaniaeth yn datblygu rhwng polisi ynni yng Nghymru ac ar lefel y DU.

Os na wneir dim mwy na chynyddu'r nenfwd ar gyfer y mathau o ddatblygiad a all gael caniatâd yng Nghymru, ni fydd Cymru yn gallu gwneud fawr mwy na gwneud rhai penderfyniadau cyfyngedig o fewn fframwaith polisi'r DU. Ni all ddatblygu a gweithredu polisi ynni sydd wir wedi'i ddatganoli ar gyfer Gymru, heb gael pwerau

llawer ehangach mewn meysydd fel cyflenwi trydan, rheoleiddio'r grid a'r gyfundrefn cymhellion.

**Gwresogi ac oeri**

Mae hwn yn gymal cadw newydd nad oedd yn y Bil drafft.

Mae paragraff 217 o'r Nodiadau Esboniadol yn nodi bod yr adran yn cadw'r pŵer ar gyfer prosesau cynhyrchu, dosbarthu a chyflenwi o safbwynt systemau gwresogi ac oeri. Mae'n diffinio systemau cyfun gwres a phŵer (a elwir hefyd yn systemau cyd-gynhyrchu) fel gosodiadau sy'n cynhyrchu pŵer trydanol ac ar yr un pryd yn casglu gwres i'w ddefnyddio.

Gwelir datblygiadau gwres ac ynni cyfun fel arfer yng nghyd-destun datblygiadau lleol. Hoffem ragor o eglurhad ynghylch y sail resymegol dros gynnwys y cymal cadw hwn.

Yn gywir,



**Mark Reckless AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Glwedig**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.